Adroddiad ar yr amserlen ar gyfer ystyried y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)

Rhagfyr 2016

Ar 12 Rhagfyr 2016, cafodd Bil Llywodraeth, y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru), ei gyflwyno yn y Cynulliad.

Ar 22 Tachwedd 2016, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 26.9, i gyfeirio'r Bil at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg er mwyn iddo ystyried yr egwyddorion cyffredinol a chyflwyno adroddiad arnynt.

Ar 29 Tachwedd 2016, yn unol â Rheol Sefydlog 26.7, trefnodd y Pwyllgor Busnes amserlen i'r Pwyllgor ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil a chytunodd y dylai'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad erbyn 12 Mai 2017.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd y dylid cwblhau trafodion Cyfnod 2 erbyn 14 Gorffennaf 2017, ar yr amod bod y Cynulliad yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil.